

EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023



Rhif 88 – Grŵp Cerdd Dant 19 – 25 oed (3 – 8 mewn nifer)

Y Gân Ola’ – Bethan Davies

Copi o’r geiriau a’r corffaniaid ar gael o Adran yr Eisteddfod Glan-Ilyn

Cainc: Penygraig – Bethan Bryn (1122)

Stelcian - Curiad

88. Grŵp CD 19-25 oed (3-8 mewn nifer) trillais neu fwy. Caniateir dyblu lleisiau

‘Y Gân Ola’, Bethan Davies

Cainc: ‘Penygraig’, Bethan Bryn (1122)

Oherwydd anghysondeb yn hyd y llinellau, dichon fod posib’ acennu mewn gwahanol ffyrdd, ond awgrymwn fel â ganlyn:-

Pennill 1 - taro i mewn ar gwafer olaf yr ail guriad yn yr ail far, a bydd y prif acenion yn disgyn ar y 1af a’r 3ydd curiad y bar fel â ganlyn:-

Hen ffrindiau ac atgofion am beth fu, *saib / daliad*

A thithau’n galw heibio atom ni, *saib / daliad*

Y nefoedd sydd yn agor gyda’r nodau syml, pêr, *saib / daliad*

A ninnau yn mwynhau’r alawon cu.

Pennill 2 -taro’i mewn fel ym mhennill 1

Yn gryg o fewn ein cofion llawenhawn, *saib / daliad*

Dim sôn am boenau’r byd na diffyg dawn.

Ac yn yr oriau mân pan ddaw cysgodion hir a chodi llaw, *saib / daliad*

Cân ola’ sydd yn torri calon lawn.

Pennill 3 – taro i mewn ar gwafer olaf y curiad olaf yn yr ail far

Mor fyr yr oedd yr amser galwaist heibio *saib / daliad*

Fel aur o eiliad lon mewn blwyddyn hir. *saib / daliad*

Ac er ond cofion sydd am ddyddiau hapus, *saib / daliad*

Mae gwên yn dod i leddfu poen y cur.

Pennill 4 – taro i mewn fel ym mhenillion 1 a 2 ar gwafer olaf yr ail guriad yn yr ail far

Mi alwaist heibio droeon ers y dydd *saib / daliad*

Pan rhaid oedd dweud ffarwél a mynd yn rhydd,

Ond dyma’r gân a ganwn er mwyn diolch it’ am alw mewn, *saib / daliad*

Y gân, a’r wên, dim diwedd iddynt sydd.

EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023

**Rhif 88 – Grŵp Cerdd Dant 19 – 25 oed (3 – 8 mewn nifer)
Y Gân Ola' – Bethan Davies**

Cainc: Penygraig – Bethan Bryn (1122) – Stelcian, Curiad



Y GÂN OLA'

**Hen ffrindiau ac atgofion am beth fu,
A thithau'n galw heibio atom ni,
Y nefoedd sydd yn agor gyda'r nodau syml, pêr,
A ninnau yn mwynhau'r alawon cu.**

**Yn gryg o fewn ein cofion llawenhawn,
Dim sôn am boenau'r byd na diffyg dawn.
Ac yn yr oriau mân pan ddaw cysgodion hir a chodi llaw,
Cân ola' sydd yn torri calon lawn.**

**Mor fyr yr oedd yr amser galwaist heibio,
Fel aur o eiliad lon mewn blwyddyn hir.
Ac er ond cofion sydd am ddyddiau hapus,
Mae gwên yn dod i leddfu poen y cur.**

**Mi alwaist heibio droeon ers y dydd
Pan rhaid oedd dweud ffarwél a mynd yn rhydd,
Ond dyma'r gân a ganwn er mwyn diolch it' am alw mewn,
Y gân, a'r wên, dim diwedd iddynt sydd.**